

Dod i'nabod aelod o GLWB GWAWR

JEN DAFIS

Jen yw Swyddog Datblygu y De-ddwyrain a De Powys a Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr Morgannwg a'r De-ddwyrain.

Mae'n byw yn y Bontfaen.

Lle cawsoch chi'ch geni?

Ces i ngeni yng Nghaerfyrddin, ond Cardi ydw i. Yn wreiddiol o Ddyffryn Clettwr, Pontsian, felly Cardi ydw i!

Sut fagwraeth gawsoch chi?

Magwraeth cefn gwlad. Ro'n i'n ferch ffarm. Yn naturiol roedd y pethau diwylliannol Cymraeg yn bwysig, ond prin roedd y teulu'n mynd i'r pethau



Jen Dafis

cededlaethol Cymraeg. Yn Ysgol Gynradd Pontsian, dyna lle des i i ddeall am fyd natur a dysgu i werthfawrogi unigolion am yr hyn ydyn nhw. Roedd diwylliant y capel yn bwysig iawn a dylanwad yr ysgol Sul. Buon ni'n ffodus iawn i gael athrawon da i ddangos i ni sut i fyw ein crefydd. Undodwraig ydw i ac er na fydda i'n mynd i gapel Undodwyr mwyach, mae gen i seiliau cryf i bopeth dwi'n ei wneud.

Am beth ydych chi'n teimlo'n gryf?

Mae'r amgylchedd yn bwysig iawn i fi. Dros dro rydyn ni i gyd yma ac mae'n

rhaid gwneud yn siŵr ein bod yn pasio'r blaned ymlaen mewn gwell cyflwr nag oedd hi pan gawson ni hi. Dwi'n trio byw bob dydd Gwener heb ddefnyddio plastig. Mae'n anodd! Mae ailgylchu yn hollbwysig. Faint o cling film neu ffoil arian ydyn ni'n ei ddefnyddio? Dwi'n ceisio codi tri darn o sbwriel o leiaf, pan af am dro neu i'r traeth.

Beth yw eich cas beth?

Dwi ddim yn casáu unrhyw beth – mae bywyd yn rhy fyr. Mae pethau'n fy ngwylltio i, wrth gwrs.

Beth oedd eich gwyliau gorau?

Does dim rhaid mynd dramor am wyliau. Gallwch dreulio orig ar lan y môr neu fynd am dro yn y wlad a chreu atgofion oes. Mae gwyliau mewn gwledydd pell a phoeth yn gallu bod yn ffantasi byr iawn. Y gwyliau gorau yw'r hyn sy'n digwydd i chi ar unrhyw adeg arbennig.

Beth yw eich hoff ymarfer corff?

Ymarfer corff yw garddio, glanhau'r tŷ neu fynd â'r ci am dro! Dwi'n meddwl mai un o'r llefydd mwyaf afiach yw gym a'i system awyru.

Sut ydyn ni'n gallu annog mwy o bobl i siarad Cymraeg?

Drwy siarad Cymraeg gydag 'C' fawr! Drwy greu ymwybyddiaeth o'n hiaith a'n diwylliant, a chreu'r ymdeimlad o berthyn. A gwneud hyn i gyd ar lefel cyrhaeddiad yr unigolion sydd yn eich cwmni. Dyna mhrofiad i hyd yn hyn.

Beth yw eich hoff fwyd?

Mae'n amrywio o ddydd i ddydd. Dwi'n hoff iawn o goginio – unrhyw beth, o bice ar y maen i bastai, i fara neu jam. Dwi ddim yn meddwl bod hynny'n hen ffasiwn, mae'n ffordd dda o ymlacio. Dwi wedi rhannu hynny gyda fy mhlant ac maen nhw'n hoffi coginio hefyd.

Beth yw'r noswaith orau gawsoch chi gyda Chlwb Gwawr?

Pa un bynnag yw'r Clwb Gwawr, mae'r nosweithiau i gyd yn ddiddorol ac mor amrywiol â'r unigolion sydd yno. Cryfder y nosweithiau hyn yw cael criw o ferched yn rhannu profiadau, yn trafod syniadau ac yn byw eu bywydau. Dyna'r noson orau mewn Clwb Gwawr fel mewn unrhyw gangen o Ferched y Wawr.

Ble mae'ch hoff le yng Nghymru?

Mae'n amrywio yn ôl fy nheimladau. Dwi wedi dweud erioed mai un o'r llefydd harddaf yn y byd i gyd yw Blaenau Ffestiniog, yn y glaw neu beidio! Yno mae rhinweddau'r bobl yn y cerrig ac mae hynny'n dweud llawer amdanom ni'r Cymry. Rhowch i fi unrhyw le yng Nghymru, a dweud y gwir.

Beth sy'n digwydd yn eich bywyd nawr?

Dwi'n gweithio i Merched y Wawr am ddeuddeg awr yr wythnos. Dwi wrth fy modd yn cael y cyfle i gwrdd ac i drafod gyda menywod ar draws rhanbarth y De-ddwyrain. Dwi'n gweithio hefyd gyda Menter Bro Morgannwg, yn sgwrsio gyda'r dysgwyr sy'n croesi'r bont i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Dwi hefyd yn hoffi gweithio gyda theuluoedd, yn rhannu'r Gymraeg gyda nhw drwy stori a chân neu wrth fynd ar daith Wâc Welis. Mae'n dda gweld hyder y teuluoedd yn cryfhau wrth siarad Cymraeg â'u plant bach.

Sut ydych chi'n ymlacio?

Dwi ddim yn yfed Prosecco! Dwi'n hoffi coginio a chwmi ffrindiau dros bryd o fwyd, efallai. Dwi'n ceisio garddio yn organig ac yn amgylcheddol gyfeillgar. Mae'n rhaid sôn am wario amser gyda'r teulu oherwydd fod y plant wedi tyfu erbyn hyn. Rwy'n ceisio ymuno yn eu bywydau bach nhw, mewn a mas, mor aml â phosib. Dwi wrth fy modd yn mynychu digwyddiadau Cymreig. Dwi'n ffan mawr, ers dwi'n cofio, o fandiau byw o unrhyw fath. O'n i'n benderfynol o sicrhau bod fy mhlant yn profi'r wefr o weld bandiau, cerddorfeydd ac unrhyw berfformwyr byw ar lwyfan. Ac mewn munudau tawelach dwi'n mwynhau cwmni'r gath a'r ci, a'r ieir!